



Doethineb Gwledig Sut mae pandemig COVID-19 wedi newid y ffordd mae cymunedau'n cefnogi'r naill a'r llall.



Mae Doethineb Gwledig yn brosiect ar gyfer pobl hŷn yn yr Alban a Chymru. Ei nod yw ceisio lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd gyda gweithgareddau datblygu cymunedol a gwirfoddoli a arweinir gan bobl hŷn yn yr ardaloedd hyn.

Mae Doethineb Gwledig wedi gweithio ledled Cymru yng Nghoed-llai a Phontblyddyn, Treffynnon, Aberdaugleddau a Phenrhyn Dale. Rhwng 2017 a mis Chwefror 2020, bu'r Gweithwyr Datblygu yng Nghymru yn gweithio o fewn eu cymunedau gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr anffurfiol.

Nid oedd y gwirfoddolwyr hyn yn rhan ffurfiol o Volunteering Matters Cymru, ond cawsant eu cefnogi gan y sefydliad a Doethineb Gwledig i gynnig gweithgareddau yn eu hardaloedd lleol ac arwain newid o fewn eu cymunedau. Yn dilyn y gwaith hwn yng Ngogledd Cymru (Coed-llai a Phontblyddyn, Treffynnon) agorwyd Caffi Cymunedol Sunshine mewn canolfan gymunedol leol, cynhaliwyd cinio misol i bawb o bob oed mewn ysgol gynradd leol yng Nghoed-llai a Phontblyddyn; ac agorwyd gardd gymunedol yn Nhŷ Hwb Holway, Treffynnon.

Caffi Cymunedol Sunshine a chlwb cinio



Gardd Gymunedol yn Nhŷ Hwb Holway




Gwirfoddolwyr Volunteering Matters

Pan ddaeth COVID-19 i daro Prydain ym mis Mawrth 2020, daeth gwaith Doethineb Gwledig a'i wirfoddolwyr mewn cymunedau lleol i ben dros nos. Er hyn, parhaodd presenoldeb y prosiect a'i bobl. Defnyddiwyd Model Ymateb Casnewydd yn syth, yn ogystal â'r rhwydweithiau a ffurfiwyd drwy waith cynharach er mwyn rhannu gwybodaeth a chysylltu pobl oedd angen cymorth gan y rheiny a allai ei ddarparu. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, penderfynodd sawl gwirfoddolwr cymunedol anffurfiol i ddod yn Wirfoddolwr Volunteering Matters. Ar ôl dechrau eu swyddi'n ffurfiol, cafodd y gwirfoddolwyr, a'u cymunedau lleol, y cymorth a'r diogelwch mae Volunteering Matters yn ei gynnig.

Drwy ffurfioli swyddi'r gwirfoddolwyr, a defnyddio'r cysylltiadau roedd Doethineb Gwledig a'r gwirfoddolwyr cymunedol wedi'u creu cyn y pandemig, cafwyd llawer o ymddiriedaeth, sicrwydd a chysondeb o fewn eu gwaith yn ymateb i'r pandemig. Roedd trigolion y cymunedau'n teimlo'n ddiogel o wybod bod y gwirfoddolwr a oedd yn eu helpu nhw eisoes yn gyfarwydd a dibynadwy o fewn y gymuned.

Golyga hyn bod pobl yn gallu cael neges bwyd wythnosol, meddyginiaeth bwysig a rhywun i sgwrsio ag ef neu hi dros y ffôn yn rheolaidd. Mae llawer o'r cymorth hwn wedi bod ar waith yn gyson ers y pandemig, gyda pharau cyfatebol yn cefnogi'r naill a'r llall dros y 18 mis diwethaf. Gyda gobaith, bydd y cysylltiadau'n yn parhau, yn ffurfiol, cyn hired ag y bydd eu hangen, ac ar sail anffurfiol yn gyffredinol.



Casgliad

Ni fyddai'r newid hwn yn y ffordd mae cymunedau'n cefnogi'r naill a'r llall wedi digwydd ar y raddfa hon oni bai am y pandemig, ond mae'n golygu y gall Doethineb Gwledig barhau i atal ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd mewn cymunedau gwledig yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cymorth cyson sy'n canolbwyntio ar gysylltiadau yng Ngogledd Cymru wedi gwneud byd o wahaniaeth i'r bobl sy'n ei dderbyn, ac mae wedi ffurfio cysylltiadau mewn cymunedau, na fyddai wedi bodoli fel arall.

Yn ystod cam cyntaf Doethineb Gwledig, roedd y Gweithwyr Datblygu wedi gweithio'n agos â phobl hŷn a'u cymunedau i adnabod y prif broblemau a mynd i'r afael â nhw, cyflawni canlyniadau'r prosiect a chreu newid cynaliadwy. Yng Ngham 2, gwnaeth y Gweithwyr Datblygu gyflwyno Doethineb Gwledig i gymunedau gwledig, newydd yng Nghymru a'r Alban, gan roi'r hyn a ddysgwyd o Gam 1 ar waith i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chyflawni'r un canlyniadau prosiect cyffredinol.

Yr Alban: Cam 1 Eaglesham, Ucheldir Swydd Perth, Gogledd Angus
Cam 2 Moray Gororau'r Alban
Cymru: Cam 1 Coed-llai a Phontblyddyn, Aberdaugleddau
Cam 2 Treffynnon a Phenrhyn Dale

Pwynt Cyswllt Gwerthuso

Dr Victoria Mason-Angelow
Ymgynghorydd Ymchwil a Gwerthuso
Victoria.Mason-Angelow@ndti.org.uk

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi)
www.ndti.org.uk

Adnoddau

Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gael yma:
www.ruralwisdom.org

